

Sut i Ddweud eich Dweud

Datganiad Cynnwys y Gymuned



Mae'r Datganiad Cynnwys y Gymuned hwn yn esbonio pam bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn meddwl ei bod yn bwysig i chi gael dweud eich dweud mewn penderfyniadau y mae'n ei wneud sy'n effeithio arnoch chi. Mae'n disgrifio sut fydd y Cyngor yn cynnwys pobl o bob oedran, o wahanol grwpiau, cymunedau lleol, busnesau a sefydliadau er mwyn canfod eu barn. Ac mae'n esbonio sut gaiff hyn ei wneud a'r hyn y gallwch chi ei ddisgwyl o gymryd rhan.

Ar gyfer pwy y mae?

Fe'i bwriedir ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn dweud eu dweud am newidiadau yn y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a'i strategaethau/polisiau, ac unrhyw un sydd eisiau bod yn rhan o wella dyfodol Sir Conwy.

Pam bod Cynnwys y Gymuned yn bwysig

Ceir llawer o resymau pam ei bod yn bwysig i chi gael dweud eich dweud:

- **Hawliau** – mae gennych chi hawl i ddweud wrthym pa wasanaethau y mae arnoch eu hangen a sut ddylen nhw gael eu cyflenwi.
- **Penderfyniadau** – gallwch chi ddarparu'r ffeithiau a'r safbwyntiau i'n cynorthwyo i wneud penderfyniadau, fel ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir.
- **Llais** – mae eich safbwyntiau'n bwysig ac rydym eisiau gwrandao arnoch ac ymateb.
- **Adnoddau** – mae adnoddau'n brin ac rydym eisiau sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i gwrdd â'ch anghenion.
- **Newid** – gallwch **chi** wneud gwahaniaeth.
- **Hyder** – gallwn weithio gyda'n gilydd fel eich bod â mwy o hyder yn yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud.

Beth rydych chi wedi'i ddweud wrthym

Fe wnaethoch chi ddweud wrthym eich bod chi eisiau i ni sicrhau bod pobl yng Nghonwy:

- Yn derbyn addysg a gyda sgiliau
- Yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- Yn byw mewn tai diogel ac addas
- Yn iach ac annibynnol
- Yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus
- Yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy
- Yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

Mae heriau ariannol sylweddol o'n blaenau, sy'n golygu y bydd angen gwneud newidiadau a phenderfyniadau anodd. Efallai na fydd rhai o'r penderfyniadau hyn yn boblogaidd. Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn golygu y gallwn weithio gyda'n gilydd i ganfod y ffordd orau ymlaen. Dyma'r 10 Egwyddor:

1. A fydd yn gwneud gwahaniaeth? Ni ddylid ond gofyn am eich barn:

- Os ydym yn gwrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud
- Os gallwn newid pethau y mae angen eu newid
- Os gallwn gadw pethau fel y maen nhw os oes angen.

2. Gofyn i'r bobl iawn Dylid gofyn i'r bobl iawn gymryd rhan. Gall y rhain fod:

- Yn bobl sy'n defnyddio gwasanaeth yn awr
- Yn bobl a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth i'r dyfodol o bosib
- Yn rhieni/gofalwyr neu'n warcheidwad i rywun sy'n defnyddio gwasanaeth.

3. Rhoi cyfle i bawb

- Dylech gael digon o amser i gymryd rhan.
- Dylech gael eich helpu i gymryd rhan yn y ffordd a ddewiswch chi.
- Mae hyn yn golygu y gallwn gynnal cyfarfod hwyliog y gall plant bach ei ddeall a'i fwynhau ac yna gynnal cyfarfod gwahanol i oedolion.

4. Gweithio gyda sefydliadau eraill - Weithiau, mae sefydliadau gwahanol e.e. yr heddlu, iechyd ayyb eisiau gwybodaeth am yr un pethau a chael yr un bobl i gymryd rhan. Dylem siarad gyda'n gilydd a gweld a allwn weithio gyda'n gilydd ac arbed amser ac arian.

5. Siarad ac ysgrifennu'n glir

- Dylai gwybodaeth gael ei rhoi mewn ffordd y gallwch chi ei deall.
- Ni ddylem ddefnyddio geiriau nac iaith anodd.
- Os oes angen, dylem roi gwybodaeth ar fformat hawdd ei ddarllen, sain (CD), fideo (DVD) neu mewn print bras.
- Dylai gwybodaeth gael ei rhoi yn Gymraeg a Saesneg ac mewn ieithoedd eraill os oes angen.

6. Ei gwneud yn hawdd i bobl - Dylem feddwl am bethau y gallent ei gwneud yn anodd i bobl gymryd rhan a chanfod ffyrdd o wneud pethau'n haws. Mae hyn yn golygu y dylem wneud pethau fel:

- Cynnal cyfarfodydd mewn ystafelloedd sy'n hygyrch i bobl anabl fynd i mewn iddynt a'u defnyddio
- Sicrhau ein bod yn cynnal digwyddiadau mewn lleoliad y gallwch eu cyrraedd ar fws neu drên
- Sicrhau bod pobl fyddar yn gallu cymryd rhan drwy ddefnyddio iaith arwyddion neu isdeitlau.

7. Helpu pobl i ddysgu a datblygu - Gallem helpu pobl i ddysgu:

- Sut mae ein sefydliadau yn gweithio
- Sut i fod yn fwy hyderus i ddweud eu barn
- Sut i gymryd rhan yn eu cymuned
- Sut i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.

8. Amser ac arian

Dylem sicrhau bod gennym ddigon o arian ac amser. Mae angen i ni gael digon o amser i gynnal cyfarfodydd, siarad gyda phobl a deall yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym. Mae'n bosib y bydd arnom angen gwario arian ar logi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd, prynu cinio i bobl neu dalu am gludiant pobl.

9. Dweud wrthyh chi beth sydd wedi digwydd ar ôl i chi gymryd rhan

Ar ôl i ni wrando ar yr hyn rydych chi wedi'i ddweud, dylem roi gwybod i chi am yr hyn rydym ni am ei wneud. Mae yna lawer o bethau y dylem eu gwneud ar ôl i ni gael pobl i gymryd rhan. Dylem:

- Ddweud wrthyh os ydym wedi gwneud penderfyniad y credwn y byddwch chi'n cytuno ag o
- Rhoi gwybod i chi am benderfyniadau y credwn na fyddwch chi'n cytuno â nhw o bosib
- Dweud wrthyh os ydym ni'n newid gwasanaeth oherwydd yr hyn a ddywedoch chi
- Rhoi gwybod i chi pam na allwn wneud yr hyn y gwnaethoch chi ofyn amdano.

10. Gwneud pethau'n well y tro nesaf

Pan ofynnwn i bobl gymryd rhan, dylem feddwl am sut allwn ni wneud pethau'n well y tro nesaf. Mae hyn yn golygu y dylem:

- Ofyn i chi pa mor hawdd oedd hi i chi gymryd rhan
- Gweld a wnaeth y bobl iawn gymryd rhan
- Sicrhau ein bod wedi canfod yr hyn y mae arnom ni angen ei wybod.

Y tro nesaf y byddwn yn gofyn i bobl gymryd rhan, dylem wneud hynny'n well

Sut allwch chi gyfranogi?

Bydd y math o benderfyniad a wneir neu'r math o strategaeth/polisi sy'n cael ei lunio yn penderfynu sut allwch chi gyfranogi.

Weithiau, byddwn yn defnyddio cylchlythyron, ein gwefan, taflenni, posterï a chyfarfodydd i godi ymwybyddiaeth ac i roi gwybodaeth i chi. Byddwn yn defnyddio ymgynghoriadau, arolygon, cynlluniau awgrymiadau, ffurflenni adborth a gweithdai neu efallai y byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol os ydych chi'n defnyddio gwasanaeth sy'n cael ei adolygu.

Efallai y gofynnir i chi ddweud eich dweud fel unigolyn, neu fel rhan o unrhyw grwpiau rydych chi'n ymwneud â nhw, fel cymdeithasau preswylwyr neu grwpiau cefnogi.

A byddwn bob amser yn ceisio defnyddio'r ffyrdd diweddaraf i roi gwybodaeth i chi gydol y broses gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

Gall unrhyw un sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yng Nghonwy roi awgrymiadau am destunau i'w hystyried i'r dyfodol. Gallwch chi wneud hyn drwy ymweld â gwefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/scrutiny

Bydd yr holl ymgynghoriadau a wnawn yn cael eu cynnwys ar ein Cofrestr Dweud eich Dweud, sydd i'w gweld yn: www.conwy.gov.uk/haveyoursay

Sut fyddwn ni'n defnyddio'r hyn a ddywedoch chi?

Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddywedwch, ynghyd ag unrhyw ymchwil arall sydd gennym, i wneud penderfyniadau am yr hyn a wnawn a sut ydym ni'n cyflenwi ein gwasanaethau.

Byddwn yn darparu i chi adborth sy'n esbonio'r hyn a wnawn gyda'r wybodaeth a roddwch i ni a chrynhoi gan ddweud:

- Fe wnaethom ofyn
- Fe wnaethoch chi ddweud
- Fe wnaethom / Ni wnaethom

fel eich bod chi'n deall yn iawn sut ydym ni wedi defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth rydych chi wedi'u rhoi i ni.

Fe wnawn gadw eich manylion personol yn gyfrinachol. Caiff gwybodaeth a roddwch i ni amdanoch chi e.e. oedran, rhyw, anabledd (gwybodaeth am gydraddoldeb) ei defnyddio i sicrhau ein bod yn siarad gyda phawb y mae arnom angen siarad â nhw.

Sut fyddwn ni'n gwybod os yw'r datganiad hwn yn gwneud gwahaniaeth?

Fe wnawn edrych i sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud yn y Datganiad hwn, a bob blwyddyn byddwn yn llunio Adroddiad Cynnwys y Gymuned i ddangos yr hyn rydym ni wedi'i wneud.

Sut y gallwch ein helpu i wella

Os oes gennych chi awgrym ar gyfer gwella, canmoliaeth, neu sylw neu bryder ynghylch eich profiad o rywbeth rydym ni wedi'i wneud wrth eich cynnwys chi, byddwch yn gallu cysylltu â rhywun i drafod hynny. Fe welwch fanylion pwy y mae arnoch angen siarad â nhw ar y wefan yn www.conwy.gov.uk/haveyoursay

Neu gallwch gysylltu â haveyoursay@conwy.gov.uk neu ffoniwch 01492 576239 neu ysgrifennwch at: Have Your Say, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy. LL32 8DU.

Os ydych chi'n teimlo nad ydych chi wedi cael profiad cadarnhaol ac eisiau gwneud cwyn, gallwch ddefnyddio trefn gwyno'r Cyngor. Gellir cael hyd i fanylion am hyn ar: www.conwy.gov.uk/cwynion

Gallwch hefyd gysylltu â'ch Cyngorydd Bwrdeistref Sirol, mae'r manylion cysylltu i'w gweld yn: www.conwy.gov.uk/mg/councillors neu drwy ffonio Gwasanaethau'r Aelodau ar (01492) 576067/8/9 neu gwasanaethau.aelodau@conwy.gov.uk

DRAFT